Rhif: **WG22211**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

## Ymgynghori – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghori ar wella argaeledd rhandiroedd a gerddi cymunedol

Dyddiad cyhoeddi: **Ionawr 2015**

ISBN digidol 978 1 4734 2433 3
© Hawlfraint y Goron 2015
WG22211

# Ymgynghori ar wella argaeledd rhandiroedd a gerddi cymunedol

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Mae'r ddogfen hon wedi'i thargedu at bawb sydd â diddordeb mewn rhandiroedd a gerddi cymunedol. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar y Papur Gwyrdd ar wella argaeledd rhandiroedd a gerddi cymunedol. |
| **Camau Gweithredu** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o Wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:<br>Y Gangen Tirwedd, Hamdden Awyr Agored a Phryfed Peillio<br>Rhodfa Padarn<br>Llanbadarn Fawr<br>Aberystwyth<br>Ceredigion<br>SY23 3UR<br><br>Ffôn: 0300 062 2246<br><br>E-bost: Allotments@wales.gsi.gov.uk |
| **Rhagor o** | Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn at<br>www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad** 4

**2. Y broses ymgynghori** 4

**3. Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad** 6

Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno â nod Llywodraeth Cymru ar gyfer rhandiroedd a thyfu bwyd yn y gymuned? 6

Cwestiwn 2: Beth yw'r prif faterion a'r blaenoriaethau yng Nghymru ar gyfer gwireddu'r nod hwn? 6

Cwestiwn 3: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid llunio canllawiau penodol i Gymru? 7

Cwestiwn 4: Pa faterion y dylid eu cynnwys yn y canllawiau? 8

Cwestiwn 5: Pa enghreifftiau o arferion da sy'n bod yn y maes hwn y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu arnynt i ryddhau tir at ddibenion tyfu bwyd yn y gymuned? 10

Cwestiwn 6: Beth yw'r prif ddulliau y gallai Llywodraeth Cymru eu rhoi ar waith i gefnogi ffermwyr i ryddhau tir? 10

Cwestiwn 7: A ydych chi o'r farn y byddai darparu canllawiau ar y mater hwn yn helpu i gynnig yr eglurder sydd ei angen ar ddeiliaid lleiniau? 11

Cwestiwn 8: Beth ddylid ei ystyried fel rhan o gwmpas y canllawiau hyn o ran y math o strwythurau ac amodau rheoli tir? 12

Cwestiwn 9: Beth ddylid ei gynnwys mewn diffiniad diwygiedig o randiroedd a garddio yn y gymuned? 12

Cwestiwn 10: Beth yw'r manteision a'r anfanteision o gynnwys darpariaethau mewn deddfwriaeth sy'n caniatáu i randiroedd a thyfu yn y gymuned gael eu dirprwyo oddi wrth awdurdodau lleol i gorff y trydydd sector? 13

Cwestiwn 11: Sut y dylid llunio cofrestr o'r fath a'i diweddaru? 14

Cwestiwn 12: Fel rhan o hyn, a ddylai trydydd parti gael yr hawl i wneud cais i gofrestru neu ddatgofrestru safle, a sut y dylai hynny weithio? 15

Cwestiwn 13: Yn unol â'r darpariaethau deddfwriaethol presennol, dim ond os ydynt yn bwriadu cael gwared ar safle rhandir statudol y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Fel arfer, cyn cael cydsyniad Gweinidogion Cymru,

byddai'n ofynnol darparu safle arall o werth tebyg o ran amwynder yn lle'r safle rhandir a gaiff ei waredu. A ddylid ymestyn y dull hwn i bob safle cofrestredig? 16

Cwestiwn 14: Sut y dylid llunio rhestri aros a'u diweddaru? 17

Cwestiwn 15: Beth ddylai fod yn sbardun ar gyfer datblygu strategaeth tyfu bwyd yn y gymuned, ac a ydych chi'n cytuno mai'r awdurdod lleol ddylai arwain ar ei llunio? 18

Cwestiwn 16: O dan ba amgylchiadau, a gyda pha fesurau diogelu, ddylai awdurdodau a chymunedau allu cofrestru a defnyddio tir nad ydynt yn berchen arno nac yn ei brydlesu ar gyfer tyfu yn y gymuned? 19

Cwestiwn 17: I ba fath o ardaloedd y dylid ymestyn y cynnig hwn, a pha gamau diogelu y byddai eu hangen? 20

Cwestiwn 18: Sut y dylid mynd ati i asesu pa mor addas yw'r tir ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned, a pha faterion y dylid eu hystyried? 21

Cwestiwn 19: Ydych chi'n cytuno â'r cynigion uchod naill ai fel un pecyn cyfunol neu'n rhannol? 22

Cwestiwn 20: Beth yw effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl y cynigion (ar y cyd neu'n rhannol)? 23

Cwestiwn 21: Ym mha ffyrdd eraill, yn hytrach na'r cynigion a geir uchod, y gellid gwella'r ddarpariaeth tir ar gyfer rhandiroedd a thyfu yn y gymuned? 24

**4. Y camau nesaf 25**

**Atodiad A 26**

## 1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar 'wella argaeledd rhandiroedd a gerddi cymunedol' ar 14 Gorffennaf 2014. Roedd yn cynnwys cyfres o gynigion gyda'r nod o:

- ddarparu asesiad o gyflwr y ddarpariaeth ar hyn o bryd a phennu pa gamau y gellid eu cymryd i'w gwella
- casglu tystiolaeth o'r rhwystrau a wynebir wrth geisio darparu tir addas i bobl allu tyfu eu bwyd eu hunain, a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain
- penderfynu pa wersi y gellid eu dysgu o'r amrywiaeth eang o raglenni a gyflwynir ar hyn o bryd, ac a gyflwynwyd yn y gorffennol, sy'n rhoi cyfle i gymunedau dyfu a garddio
- ymchwilio i sut y gellid gwella'r ddarpariaeth drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol a thrwy gymorth anneddfwriaethol er mwyn cynnig mwy o fynediad at randiroedd.

Gellir gweld y Papur Gwyrdd, y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a fersiwn i blant a phobl ifanc ar wefan Llywodraeth Cymru yn: http://cymru.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/allotments-and-community-gardens/?status=closed&lang=cy

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 6 Hydref 2014 a derbyniwyd 69 o ymatebion. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A ac mae rhai ohonynt wedi cael eu cadw'n ddienw ar gais.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno barn yr ymatebwyr am y Papur Gwyrdd.

## 2. Y broses ymgynghori


Roedd y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ei gwefan yn gofyn am adborth ar gynigion yr ymgynghoriad. Ymwelwyd â'r wefan 3,250 o weithiau. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo ar-lein, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy anfon post electronig uniongyrchol at randdeiliaid. Cyhoeddwyd pob un o'r dogfennau ymgynghori yn ddwyieithog a chafodd yr ymatebwyr ddewis ym mha iaith yr oeddynt am ymateb. Roedd fersiwn ar gael hefyd i blant a phobl ifanc.

Derbyniwyd cyfoeth o wybodaeth, awgrymiadau a sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gwahoddwyd yr ymatebwyr i ystyried cwestiynau penodol hefyd am y cynigion ac fe'u hanogwyd i wneud unrhyw bwyntiau cysylltiedig eraill a allai fod yn berthnasol yn eu barn hwy. Cafodd pob sylw ei ystyried wrth asesu canlyniadau'r ymgynghoriad.

Derbyniwyd 69 o ymatebion i'r ymgynghoriad; maent yn cynnwys 3 ymateb a dderbyniwyd wedi i'r cyfnod ymgynghori ddirwyn i ben. Cafodd yr ymatebion

hyn a gyflwynwyd yn hwyr eu hystyried hefyd. Ceir dadansoddiad o'r ymatebion yn ffigur 1.

Ffigur 1: tabl yn dangos dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.




O'r 69 o ymatebion:

- roedd 57 ohonynt wedi defnyddio holiadur yr ymgynghoriad fel sail ar gyfer eu hymateb i'r ymgynghoriad, ond, sylwer nad atebodd pob un yr holl gwestiynau.
- roedd 12 ohonynt heb ddefnyddio holiadur yr ymgynghoriad, a chafodd eu sylwadau hwy eu cyflwyno mewn amrywiol ffurf.

Derbyniwyd un ymateb a oedd yn defnyddio'r fersiwn i bobl ifanc o'r ffurflen ymateb. Derbyniwyd un ymateb yn Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon yn trafod canlyniad yr ymgynghoriad ac mae wedi'i seilio ar yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn. Nid yw'n fwriad trafod pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr yn y ddogfen hon, dim ond amlygu'r prif faterion a themâu a godwyd.

Bydd pob ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi gyda'r crynodeb hwn, yn yr iaith y'i derbyniwyd, ar wahân i ymatebion y rheini a ofynnodd i gael aros yn ddienw.

Gofynnwyd 21 o gwestiynau penodol ar y cynigion yn y ddogfen ymgynghori. Roedd yna hefyd gwestiwn ychwanegol ar ddiwedd yr ymgynghoriad ynghylch mater nad oedd yn cael ei godi o dan unrhyw un o'r cwestiynau eraill.

## 3. Yr ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad

Mae'r tudalennau a ganlyn yn cynnwys dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Defnyddir y dyfyniadau a geir yn yr adroddiad fel enghreifftiau o'r farn a fynegwyd gan grŵp neu i gynrychioli barn a oedd yn gyffredin ymhlith yr ymatebwyr.

**Cwestiwn 1:**

**A ydych chi'n cytuno â nod Llywodraeth Cymru ar gyfer rhandiroedd a thyfu bwyd yn y gymuned?**

Roedd pawb a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â nod Llywodraeth Cymru. Mynegodd cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, FlintShare a Food Cardiff gefnogaeth gadarn i'r nod.

Dywedwyd yn yr ymateb ar ran Cyngor Caerdydd bod *'angen dybryd i ystyried dull mwy hyblyg o greu cyfleoedd ar gyfer tyfu yn y gymuned, a fyddai'n amrywio o ddarparu rhandiroedd statudol i safleoedd nad ydynt yn rhandiroedd, er mwyn cynnig mwy o amrywiaeth o opsiynau ac annog mwy o bobl i gynhyrchu bwyd yn lleol'.*

Teimlai cynrychiolwyr Food Cardiff ei bod *'yn hanfodol bod cynnydd yn y tir sydd ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd a thyfu yn y gymuned, a bod angen mwy o fynediad at dir o'r fath'.*

**Cwestiwn 2:**

**Beth yw'r prif faterion a'r blaenoriaethau yng Nghymru ar gyfer gwireddu'r nod hwn?**

Roedd y materion canlynol yn thema gyffredin a chawsant eu codi gan amryw o ymatebwyr:

- mae yna brinder tir addas â mynediad ato, ac sydd o safon uchel
- nid yw'r tir sydd ar gael i dyfu wedi'i leoli bob amser lle mae'r galw mwyaf
- mae yna ddiffyg cyllid ar gyfer datblygu tir yn rhandiroedd ac ar gyfer amwynderau hanfodol
- mae yna ddiffyg mynediad at adnoddau digonol ee arian, gwybodaeth a sgiliau
- mae yna ddiffyg o ran nodi a chofnodi'r galw ac nid oes digon o dir addas ar gael yn y sector cyhoeddus na'r sector preifat
- mae yna anghysondeb wrth wneud cais am lain a gall rhestri aros fod yn rhy hir.

Ymhlith y materion eraill a godwyd:

- nid yw tirfeddianwyr preifat yn cael eu hannog i ryddhau tir
- bod angen annog pobl dyfu
- rheolau a rheoliadau dryslyd, diffyg canllawiau/canllawiau annigonol

- cynlluniau a strategaethau datblygu anghyson ar draws awdurdodau lleol
- bylchau posibl o ran sgiliau/amser/hyder/gwybodaeth
- sicrhau bod y trefniadau gorau yn cael eu sefydlu ar gyfer pob safle
- nodi'r rhesymau pam nad yw'r ddemograffeg nad yw'n tyfu ar hyn o bryd yn cymryd rhan
- sicrwydd deiliadaeth
- system gynllunio gymhleth.

Roedd y blaenoriaethau canlynol yn thema gyffredin a chawsant eu codi gan amryw o ymatebwyr:

- nodi ffynonellau eraill o dir sy'n addas ar gyfer tyfu a rhyddhau tir nas defnyddir ar gyfer tyfu
- annog cyrff cyhoeddus i ryddhau tir sy'n eiddo iddynt
- darparu arweiniad clir, cyson, sy'n gadarn ond yn hyblyg
- lleihau/dileu rhwystrau economaidd, cynllunio a chontractiol sy'n atal pobl rhag defnyddio tir at ddibenion tyfu yn y gymuned
- sefydlu banciau/llyfrgelloedd offer ar gyfer offer, planhigion a hadau
- angen i leiniau fod o safon dda o safbwynt garddwriaethol.

Dyma rai o'r blaenoriaethau eraill a gafodd eu codi:

- bod angen dechrau diogelu tyfwyr ar safleoedd rhandir preifat
- codi ymwybyddiaeth o gyfleusterau, hyrwyddo manteision ac addysgu i sicrhau bod y syniad o dyfu bwyd yn dod yn agwedd meddwl
- mapio'r ddarpariaeth bresennol, llunio rhestri aros diweddar a chadarnhau o ble y mae ymholiadau yn dod
- sefydlu dull mwy tryloyw a theg o neilltuo lleiniau
- cynhyrchu templedi i'w defnyddio wrth brydlesu, trwyddedu neu wrth drosglwyddo asedau cymunedol
- diogelu tir cymunedol presennol yn well rhag datblygiadau masnachol
- cyflwyno darpariaeth ar gyfer tyfwyr i werthu cynnyrch dros ben
- dileu cyfyngiadau cynllunio ee ar gyfer siediau a lleoedd storio.

<u>Ymateb</u>
Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y prif faterion a'r blaenoriaethau a godwyd.

**Cwestiwn 3:**

**A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid llunio canllawiau penodol i Gymru?**

Roedd 96 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid llunio canllawiau sy'n benodol i Gymru. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddai gwneud hynny yn ddefnyddiol ac yn helpu i gynnig eglurder a chysondeb.

Mae Cymdeithas Randiroedd Sully Terrace (STAA) yn awgrymu '*mae angen gwneud hyn i symleiddio, sicrhau mwy o degwch a helpu pobl i gymryd rhan*'.

Dywedodd cynrychiolydd Cyngor Sir Ddinbych '*ar hyn o bryd, mae'n rhaid i chi chwilio drwy wefannau amrywiol i ddod o hyd i'r hyn sydd arnoch ei angen'*.

Cafodd canllawiau penodol i'r gynulleidfa eu croesawu (er enghraifft, ar gyfer tirfeddianwyr, awdurdodau lleol a thyfwyr). Yn ogystal â hynny, dylent fod yn hygyrch, cael eu rhannu'n eang a bod ar gael mewn amrywiol fformat. Awgrymwyd hefyd y gellid datblygu ar y gwaith a wnaed eisoes gan y Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol (FCFCG). Ystyriwyd ei bod hi'n hanfodol cael mewnbwn gan randdeiliaid allweddol. Credai un ymatebydd y dylid datblygu'r canllawiau mewn partneriaeth â'r llywodraethau datganoledig ar draws y DU er mwyn manteisio i'r eithaf ar y dysgu a'r arferion gorau.

Dywedodd yr Aelod Cynulliad a ymatebodd *'mae gennym ni gyfle yma yng Nghymru i greu diwylliant lle mae bwyd sy'n cael eu tyfu gartref yn gyffredin a lle mae'r sgiliau a'r wybodaeth i wneud hyn yn cael eu rhannu ar draws y gymuned ac yn cael eu trosglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall'.*

Roedd 6 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod angen sicrhau bod y canllawiau yn cael eu dilyn ac y dylai rhywfaint ohonynt fod yn statudol.

Y prif wrthwynebiad i ganllawiau penodol i Gymru oedd:

- byddai'r canllawiau presennol (nis darparwyd manylion) yn iawn pe baent yn cael eu rhoi ar waith; mae yna lawer o ganllawiau ar gael eisoes sy'n cael eu hanwybyddu
- dylai'r canllawiau fod yn benodol ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned ac nid o reidrwydd yn benodol i Gymru.

<u>Ymateb</u>
Mewn partneriaeth â chynrychiolwyr rhandiroedd a gerddi cymunedol a llywodraeth leol, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu pecyn o ganllawiau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys awdurdodau lleol, tirfeddianwyr a darpar arddwyr, ar amrywiol faterion yn ymwneud â rhandiroedd a gerddi cymunedol. Bydd hyn o gymorth mawr i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr a bydd hi'n haws sicrhau bod gwaith ar randiroedd a gerddi cymunedol yn bodloni anghenion lleol.

**Cwestiwn 4:**

**Pa faterion y dylid eu cynnwys yn y canllawiau?**

Tynnodd rhi ymatebwyr sylw at amryw o feysydd y dylid eu cynnwys yn y canllawiau:

- rolau a chyfrifoldebau
  - cyd-drafod
  - gweithio mewn partneriaeth
  - datrys anghydfodau
  - diogelu

- diffiniadau

- sefydlu safleoedd
- beth a phryd i'w dyfu
- sut a lle i fynegi diddordeb
- darparu tir
- gofynion sylfaenol
- cynllun yr ardal dyfu
- pa dir y gellir ei ddefnyddio
- amserlenni
- darpariaethau arbennig
- dod o hyd i dir
- mesuriadau lleiniau a strwythurau

- rheoli safleoedd
  - trin y tir
  - gofal a chynnal a chadw hirdymor
  - bioamrywiaeth, cynaliadwyedd, halogiad, plaladdwyr, anifeiliaid
  - datblygu yn y dyfodol
  - gwerthu cynnyrch
  - sut mae cymdeithasau yn gweithio

- cyllid a chymorth
  - rheoli adnoddau
  - cymorth sydd i'w gael
  - hyfforddiant
  - gwybodaeth gyswllt

- arferion da ac astudiaethau achos
  - cynlluniau ar gyfer grwpiau dan anfantais

- casglu data
  - sefydlu, rheoli ac adolygu cofrestri/rhestri aros

- materion cynllunio a chyfreithiol
  - deiliadaeth
  - atebolrwydd
  - trosglwyddo tir

- cwestiynau cyffredin.

<u>Ymateb</u>
Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y canllawiau a gynhyrchir yn cynnwys yr amrediad llawn o faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau, sefydlu safleoedd, cofrestru a rheoli safleoedd, cyllid a chymorth a gweinyddu rhestri aros. Bydd y canllawiau yn cael eu cynhyrchu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

**Cwestiwn 5:**

**Pa enghreifftiau o arferion da sy'n bod yn y maes hwn y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu arnynt i helpu i ryddhau tir at ddibenion tyfu bwyd yn y gymuned?**

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at enghreifftiau o arferion da; ar dir cyhoeddus a thir preifat. Cafodd yr enghreifftiau isod eu cynnig gan lawer iawn o ymatebwyr:

- Llysiau'r Vetch, Abertawe
- FlintShare
- Prosiect Community Foodie
- Prosiectau Incredible Edible
- Y Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol (CLAS)
- Brighton & Hove Allotment Association.

<u>Ymateb</u>
Mae'n glir o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn bod gwaith rhagorol yn cael ei wneud eisoes i hyrwyddo dulliau arloesol o alluogi pobl i arddio yn y gymuned. Mae Llywodraeth Cymru am ddatblygu ar yr arbenigedd sydd ar gael eisoes i helpu cymunedau ym mhob cwr o Gymru i elwa ar y cynnydd a fu mewn cyfleoedd i dyfu. Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar sut y gellir cefnogi tyfu yn y gymuned ymhellach drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig.

**Cwestiwn 6:**

**Beth yw'r prif ddulliau y gallai Llywodraeth Cymru eu rhoi ar waith i gefnogi ffermwyr i ryddhau tir?**

Roedd gan yr ymatebwyr amryw o awgrymiadau sut y gellid cefnogi ffermwyr i ryddhau tir ar gyfer tyfu.

Awgrymodd yr ymatebydd ar ran Gardd Fotaneg Cymru bod angen *'sicrhau nad yw rhyddhau tir i gefnogi hyn yn torri ar hawliau eraill i gael taliadau/cymorthdaliadau'*. Awgrymodd mwy nag un o'r ymatebwyr y gellid rhoi pwyntiau i ffermwyr o dan gynllun Glastir, neu y gellid cynnig cymorthdaliadau/cymelliadau treth iddynt i ryddhau parseli o dir addas. Cynigiodd y cynrychiolydd ar ran Food Cardiff y dylai fod *'hyblygrwydd yng nghanllawiau Glastir i hyrwyddo'r defnydd o dir ar gyfer tyfu yn y gymuned'*.

Awgrymodd amryw o'r ymatebwyr, gan gynnwys FCFCG, y dylid rhoi canllawiau a chyngor clir i ffermwyr. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am: fuddion, hawliau meddiannaeth, terfynu prydles, tenantiaeth, cyllid, cyfrifoldebau, yswiriant a delio ag anghydfod. Awgrymwyd hefyd y gellid darparu manylion asiantaethau cymorth.

Mynegwyd yn yr ymateb gan Gyngor Caerdydd fod *'angen darpariaeth ar ffermwyr i sicrhau y gellid gwarantu eu hincwm ac y byddant yn gallu adennill tir o fewn amserlen benodol os bydd ei angen at ddefnydd arall'*.

Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru *‘rhaid datblygu unrhyw system gymorth yng nghyd-destun y symud tuag at daliadau yn seiliedig ar ardal, gofynion y system drawsgydymffurfio, rheoliadau, ac argaeledd cynlluniau rheoli tir a gwasanaethau cynghori o dan y Cynllun Datblygu Gwledig’*.

Awgrymwyd yn y sylwadau gan Gymdeithas Randiroedd Llandudoch y gellid egluro wrth ffermwyr mai *‘cyfrifoldeb y gymdeithas newydd fyddai cynnal a chadw'r tir i safon dda, a'r gwaith ymarferol o wneud hynny’*. (Ni chafwyd rhagor o wybodaeth am 'y gymdeithas newydd')

<u>Ymateb</u>
Mae Llywodraeth Cymru yn annog ac yn cefnogi tirfeddianwyr preifat i ryddhau tir ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno datblygu pecyn o ganllawiau penodol i'r gynulleidfa, a fydd yn cynnwys cyngor ar sut y gall tirfeddianwyr weithio gyda'r rheini sydd â diddordeb mewn cael cytundeb dros dro i drin eu tir. Bydd y canllawiau hefyd yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar bobl i wneud penderfyniad deallus.

**Cwestiwn 7:**

**[Mae rheolau gwahanol yn gymwys mewn safleoedd rhandir ac awdurdodau lleol gwahanol o ran pryd y gallai fod angen caniatâd cynllunio ar gyfer strwythurau cysylltiedig]**

**A ydych chi o'r farn y byddai darparu canllawiau ar y mater hwn yn helpu i gynnig yr eglurder sydd ei angen ar ddeiliaid lleiniau?**

Roedd 95 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y byddai canllawiau ar y mater hwn yn helpu i roi'r eglurder sydd ei angen ar ddeiliaid lleiniau. Anghytunai dau ymatebydd, â'r naill o'r farn na ddylai hwn fod yn flaenoriaeth a'r llall yn dweud y dylai pob safle barhau â'i awdurdodaeth ei hun.

Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at y ffaith bod y broses gynllunio bresennol yn gymhleth ac nad yw hi'n gyson ar draws siroedd unigol. Byddai canllawiau cenedlaethol yn sicrhau cysondeb ar draws pob sir. Awgrymodd un gymdeithas randiroedd y byddai set o reolau clir o gymorth i bawb wybod beth sydd yn a beth nad yw'n cael ei ganiatáu.

Yn y sylwadau a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Penarth, dywedwyd bod canllawiau yn *'hanfodol i oroesi materion yn ymwneud â strwythurau anaddas/diolwg yn cael eu codi pan fo hynny'n amhriodol'*. Dywedodd FlintShare bod *‘rhaid iddynt allu parhau i hyrwyddo awyrgylch anffurfiol ac ysbryd cymunedol’*. Cynigiodd Cyngor Bro Morgannwg y dylid darparu *'cyngor clir a chynhwysfawr fel bod cymunedau yn gallu rheoli eu safleoedd yn ddigonol ac yn gyfrifol'.*

<u>Ymateb</u>

Er bod cyfrifoldeb am gynllunio ddydd-i-ddydd yn aros gyda'r Awdurdodau Cynllunio Lleol, caiff canllawiau eu cynhyrchu fel rhan o'r pecyn canllawiau a drafodwyd uchod. Bwriad y canllawiau hyn yw cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynllunio ar lefel leol, yn ogystal â chynorthwyo deiliaid rhandiroedd drwy daflu goleuni ar ofynion cynllunio.

**Cwestiwn 8:**

**(Os atebwyd 'ydw/ydym' i Gwestiwn 7) Beth ddylid ei ystyried fel rhan o gwmpas y canllawiau hyn o ran y math o strwythurau ac amodau rheoli tir?**

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at amryw o feysydd y dylid eu cynnwys yn y canllawiau.

Strwythurau:

- deunydd, maint, lleoliad a chynllun
- mathau o strwythurau dros dro a pharhaol
- tynnu strwythurau i lawr
- safonau cynnal a chadw
- gofynion cynllunio
- cyfleusterau – biniau compost, parcio, ffensys diogelwch, mynediad.

Rheoli tir:

- arferion tir cynaliadwy a chynnal a chadw da
- dulliau dyfrhau
- beth y gellir ei storio'n gyfreithlon ar y safle - gwrteithiau
- cadw da byw a hwsmonaeth dda er lles anifeiliaid
- llygryddion a phlaladdwyr
- amodau y mae'n ofynnol gwneud cais oddi tanynt am newid defnydd
- dyletswydd gofal.

<u>Ymateb</u>
Bydd y canllawiau yn pennu ffiniau cyffredinol yr egwyddorion cynllunio ar gyfer deiliaid rhandiroedd.

**Cwestiwn 9:**

**Beth ddylid ei gynnwys mewn diffiniad diwygiedig o randiroedd a garddio yn y gymuned?**

Roedd barn yr ymatebwyr yn amrywio a ddylid diwygio'r diffiniad ai peidio. Roedd tri ymatebydd yn cwestiynu a oedd angen diffiniad estynedig. Mae Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) Cymru o'r farn y gellid gosod tir o dan denantiaeth busnes fferm.

Awgrymodd amryw o'r ymatebwyr y dylid ymestyn y diffiniad gan fod gan randiroedd a garddio yn y gymuned ran i'w chwarae yn yr ymdrech i greu Cymru gynaliadwy a gwydn. Dywedodd cynrychiolydd ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) fod *‘y diffiniad presennol yn rhy gul. Bydd moderneiddio ac ymestyn y diffiniad i gynnwys amrediad ehangach o weithgareddau tyfu yn y gymuned yn hwyluso cynnydd ymhellach eto'.* Dylai'r diffiniad diwygiedig fod yn hyblyg i gwmpasu'r amrywiaeth eang o fodelau sy'n bodoli eisoes ac i osgoi eithrio opsiynau yn y dyfodol. Mae Dinas a Sir Abertawe yn ystyried bod *‘angen moderneiddio a gwella'r ddeddfwriaeth sy'n diffinio'r defnydd o randiroedd ac yn eu llywodraethu, a bod rhaid iddi ganiatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd ac adfer tir’.*

Mae Cymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Rhandir a Hamdden Cyfyngedig (NSALG) yn croesawu mwy o ddiogelwch cyfreithiol ar gyfer pob ffurf ar dyfu bwyd yn y gymuned. Roedd amryw o ymatebwyr yn cytuno â'r farn hon. Mae FCFCG o'r farn *‘nad oes angen ailddiffinio gerddi cymunedol fel rhandiroedd... ni ddylent gael yr un lefel o ddiogelwch oherwydd gallai olygu na fydd tirfeddianwyr am ryddhau tir ar gyfer safleoedd newydd’.* Awgrymodd Cyngor Caerdydd fod angen cadw'r diffiniad o randiroedd a gerddi cymunedol ar wahân.

Cynigiodd yr Uned Adfywio Gwledig y dylai *‘diffiniadau ganiatáu ar gyfer marchnata cynnyrch yn fasnachol a chynhyrchu incwm fel y bo'n briodol’.* Mynegodd wyth ymatebydd eu cefnogaeth i werthu cynnyrch rhandir i ryw raddau, naill ai fel bwyd dros ben neu fel ffordd o godi arian at brosiectau lleol. Dywedodd un ymatebydd na fyddai'n hyfyw gwerthu cynnyrch ar raddfa mor fach.

<u>Ymateb</u>
Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos amrywiaeth y posibiliadau a'r ystyriaethau sy’n angenrheidiol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod modd gwneud mwy i wella'r ddarpariaeth cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei diwygio.

**Cwestiwn 10:**

**Beth yw'r manteision a'r anfanteision o gynnwys darpariaethau mewn deddfwriaeth sy'n caniatáu i randiroedd a thyfu yn y gymuned gael eu dirprwyo oddi wrth awdurdodau lleol i gorff y trydydd sector?**

Tynnwyd sylw at fanteision ac anfanteision sy'n gysylltiedig â dirprwyo'r cyfrifoldeb am randiroedd a thyfu yn y gymuned o awdurdodau lleol i gyrff y trydydd sector.

Manteision:

- mae gan y trydydd sector yr arbenigedd angenrheidiol
- bydd y newidiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn arwain at fwy o alw ar adnoddau mewn awdurdodau lleol ar adeg pan gaiff dyraniadau cyllidebol eu cwtogi

- ni ddylai dirprwyo i'r trydydd sector arwain at unrhyw anfantais, ar yr amod bod y ddeddfwriaeth a'r canllawiau yn glir a bod gan y trydydd sector yr wybodaeth a'r sgiliau i reoli
- gallai'r trydydd sector fod yn agosach i'r gymuned mewn rhai ardaloedd
- gallai grwpiau cymunedol fod yn fwy awyddus i ymgysylltu â'r trydydd sector annibynnol
- byddai rhestri aros yn cael eu rheoli'n ganolog a byddai'r dull gorfodi yn fwy cyson pe byddai'n wasanaeth a reolir yn ganolog
- byddai'n lleihau'r baich ar awdurdodau lleol
- mae gan y trydydd sector fynediad at gyfleoedd cyllid
- mae'r amser sydd gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd i'w neilltuo i reoli a hyrwyddo rhandiroedd a gerddi cymunedol yn brin iawn
- mae opsiynau rheoli hyblyg ar gael i'r trydydd sector.

Anfanteision:

- gallai diffyg rheolaeth gyhoeddus arwain at reoli gwael ar safleoedd a gallai'r ystyriaeth a roddir i faterion fel clymog Japan fod yn ddiffygiol
- gallai awdurdodau lleol fod yn anfoddog i dalu digon er mwyn i'r gwasanaethau gael eu rhedeg yn iawn gan gorff y trydydd sector
- gallai cyrff y trydydd sector ddod yn ddibynnol ar gymorth ariannol gan awdurdodau lleol neu gallai eu hyfywedd hirdymor fod yn ansicr
- gallai'r cyfleoedd i sicrhau cyllid ar gyfer y tymor hir fod yn gyfyngedig yn achos y trydydd sector
- gallai mater godi ynghylch sefydlogrwydd a chapasiti'r trydydd sector
- gallai olygu na fydd rhai cyrff cyhoeddus yn rhoi unrhyw gymorth ariannol i randiroedd
- mae gan awdurdodau lleol lawer o brofiad, felly dylai eu rôl hwy barhau
- gallai arwain at ddiffyg atebolrwydd a chreu diffyg democrataidd - gall yr etholwyr ddal awdurdod lleol i gyfrif, ond mae hyn yn ddyrys yn achos cyrff anetholedig
- mae yna faterion posibl o ran diogelu data - rhaid i wybodaeth bersonol fod yn ddiogel os ydyw'n cael ei throsglwyddo i'r trydydd sector.

<u>Ymateb</u>
Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r sylwadau a godwyd ond nid yw'n fwriad deddfu yn ystod Tymor y Cynulliad hwn.

**Cwestiwn 11:**

**Sut y dylid llunio cofrestr o'r fath a'i diweddaru?**

Roedd barn yr ymatebwyr am bwy ddylai fod yn gyfrifol am lunio cofrestr a'i diweddaru yn amrywio.

Credai 34 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn mai awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol am lunio'r gofrestr. Ar y llaw arall, roedd rhai cymdeithasau rhandiroedd yn teimlo na fyddai hyn yn sicrhau cysondeb ar draws Cymru.

Roedd yna gefnogaeth gadarn am un gofrestr ganolog, gyda sefydliad arweiniol yn cymryd cyfrifoldeb am Gymru gyfan. Awgrymodd amryw o'r ymatebwyr y gallai awdurdodau lleol gasglu'r wybodaeth ar gyfer eu hardal a'i bwydo i gofrestr ganolog.

Cynigiodd Capita a Dinas a Sir Abertawe mai'r sawl a fydd yn delio â'r materion gweithredol o ddydd-i-ddydd ddylai reoli'r gofrestr.

Roedd 25 y cant o'r ymatebwyr yn ystyried mai cyrff y trydydd sector ddylai fod yn gyfrifol am lunio'r gofrestr oherwydd mae'n bosibl bod ganddynt fwy o arbenigedd a'u bod yn gallu bod yn fwy hyblyg. Er hynny, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru *'os oes rhaid i'r gofrestr gael ei rheoli gan gorff y trydydd sector, byddai angen sicrwydd ynghylch materion cynnal a chadw hirdymor a mynediad pe byddai'r corff yn cael ei ddirwyn i ben neu pe byddai ei gylch gwaith yn newid'.*

Roedd dau ymatebydd yn meddwl nad oes angen cofrestr oherwydd gallai olygu na fydd cyrff preifat na chyhoeddus yn barod i gynnig safleoedd.

Cydnabu Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod fod *'angen sefydlu adnoddau rheoli hirdymor, prosesau cynnal a chadw dibynadwy, sicrwydd ansawdd a materion mynediad at ddata'.*

Ymhlith y sylwadau a gyflwynwyd ynghylch y gofrestr, awgrymwyd:

- dylai fod ar-lein, yn amlieithog ac yn agored i bawb
- dylai fod yn ofynnol darparu adborth rheolaidd i Lywodraeth Cymru a chyflwyno'r gofrestr yn flynyddol
- dylai gynnwys y manylion cyswllt perthnasol, categorïau defnydd, cwmpas a maint
- dylai gynnwys rhestr a map o bob safle, gan gynnwys tir nas defnyddir a thir a danddefnyddir
- dylai ddefnyddio systemau mapio GIS.

<u>Ymateb</u>
Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno datblygu pecyn o ganllawiau a fydd yn cynnwys cyngor ar gofrestru safleoedd rhandir a gerddi cymunedol. Rhagwelir y bydd y canllawiau yn annog awdurdodau lleol i rannu eu cofrestri ag awdurdodau cyfagos, er mwyn bod eglurder ynghylch argaeledd tir ym mhob sir. Bydd y canllawiau yn cael eu drafftio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a byddant yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn cael eu cyhoeddi.

**Cwestiwn 12:**

**Fel rhan o hyn, a ddylai trydydd parti gael yr hawl i wneud cais i gofrestru neu ddatgofrestru safle, a sut y dylai hynny weithio?**

O'r 37 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, dim ond 12 atebodd y cwestiwn a ddylai fod hawl gan drydydd parti neu beidio i wneud cais i

gofrestru neu ddatgofrestru safle. Mynegodd 83 y cant o'r 12 o ymatebwyr y dylai trydydd parti gael yr hawl i wneud cais i gofrestru neu ddatgofrestru safle. Yn ôl Cyngor Caerdydd *'os bydd trydydd parti yn cael yr hawl i wneud cais i gofrestru safle, gallai hyn rwystro tirfeddianwyr rhag cyflwyno safleoedd i'w defnyddio dros dro'.*

Roedd llawer iawn yn cefnogi'r angen am system gadarn ar gyfer cofrestru safleoedd a'u rhoi at ddefnydd arall. Mae angen iddi fod yn hawdd ei defnyddio, yn syml, clir a thryloyw. Awgrymwyd y byddai angen canllawiau ar y broses a pham y dylid cofrestru/datgofrestru safle.

Dywedwyd yn ymateb un gymdeithas randiroedd *'pan fydd safle wedi cael ei gofrestru fel rhandir, dylai fod yn anodd iawn i wneud cais i'w ddatgofrestru'.* Dylai fod yn haws sefydlu safle nag ydyw i'w ddatgofrestru. Yn ôl yr ymateb a ddaeth i law oddi wrth Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru *'dylai fod yn bosibl tynnu sylw at bryderon a chynnig sylwadau yn hytrach na'i gwneud hi'n ofynnol i ddatgofrestru safle'.* Mae datgofrestru yn debygol o gael effaith ar ddeiliaid rhandiroedd presennol neu bobl eraill sy'n cymryd rhan mewn tyfu bwyd. Mae NSALG yn awgrymu y dylid ymgynghori cyn bwrw ati â chynlluniau i ddatgofrestru unrhyw safle.

Cydnabu rhai o'r ymatebwyr y byddai angen sefydlu mesurau diogelu. Ymhlith yr enghreifftiau, awgrymwyd mai tirfeddianwyr yn unig ddylai gael gwneud cais am gofrestru/datgofrestru (gyda mecanwaith i unigolion a grwpiau lobïo perchenogion safleoedd i'w cynnwys/eithrio) ac awgrymwyd hefyd y dylid gosod amodau ar brosiectau cyn iddynt fod yn gymwys i gael cyllid.

Awgrymodd rhai ymatebwyr bod angen gwasanaeth datrys anghydfodau er mwyn ystyried ceisiadau apelio a chymrodeddu. Cynigiodd FCFCG banel o arbenigwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru, FCFCG, CLlLC a'r Gymdeithas Randiroedd. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid cyfeirio apeliadau i'r awdurdod lleol.

<u>Ymateb</u>
Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r sylwadau a wnaed.

**Cwestiwn 13:**

**Yn unol â'r darpariaethau deddfwriaethol presennol, dim ond os ydynt yn bwriadu cael gwared ar safle rhandir statudol y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Fel arfer, cyn cael cydsyniad Gweinidogion Cymru, byddai'n ofynnol darparu safle arall o werth tebyg o ran amwynder yn lle'r safle rhandir a gaiff ei waredu. A ddylid ymestyn y dull hwn i bob safle cofrestredig?**

Roedd 75 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno y dylid ymestyn y dull i bob safle gan ei fod yn diogelu tyfwyr. Awgrymwyd bod angen darparu safle arall yn lle unrhyw dir a waredir.

Roedd yr ymatebwyr a anghytunai â'r dull hwn o'r farn y gallai olygu y byddai llai o dir yn cael ei gynnig ar gyfer cynlluniau tyfu yn y gymuned, a gallai hefyd

roi datblygiadau yn y fantol yn y dyfodol. Cynigiodd Cyngor Caerdydd y dylid ymdrechu o ddifrif i ddod o hyd i safle arall ond ni ddylai fod rhwymedigaeth i wneud hynny.


Awgrymodd mwy nag un ymatebydd, fel Cyngor Caerdydd, FCFCG a Food Cardiff y dylid ystyried system ddiogelu haenog, ee safleoedd rhandir statudol, tyfu yn y gymuned ar dir cyhoeddus a thyfu yn y gymuned ar dir preifat.

Ymateb
Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r sylwadau a godwyd.

**Cwestiwn 14:**

**Sut y dylid llunio rhestri aros a'u diweddaru?**

Cafodd awgrymiadau niferus eu cynnig ynghylch pwy ddylai lunio'r rhestr aros a'i diweddaru.




Mae Cymdeithas Randiroedd Sully Terrace a CLlLC yn cynnig y dylid diweddaru'r rhestr aros bob blwyddyn, ac y dylai ymgeiswyr orfod cadarnhau unwaith yn rhagor bod ganddynt ddiddordeb. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid llunio rhestri ar wahân ar gyfer safleoedd rhandir a safleoedd tyfu yn y gymuned.

Cynigiodd amryw o ymatebwyr y dylai fod yn ofynnol rhoi diweddariad i unigolion i ddweud wrthynt yn union le maen nhw ar y rhestr. Dylai'r ymgeiswyr fod yn gwbl glir sut a phryd y cysylltir â hwy ac y byddant yn cael eu dileu o'r rhestr os na fyddant yn rhoi gwybod am unrhyw newid yn yr wybodaeth.

Roedd cefnogaeth gadarn y dylai'r niferoedd ar restri aros a mapiau safleoedd fod ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar-lein. Awgrymwyd yn yr ymateb gan FCFCG y gallai unigolion a grwpiau wneud cais am safle rhandir neu safle tyfu yn y gymuned mewn un lle canolog. Awgrymodd Cyngor Tref Bae Colwyn y dylai *'unrhyw gais sy'n dal i aros am ganlyniad am gyfnod hwy na 18 mis gael ei gofnodi fel methiant i fodloni'r ddarpariaeth. Os bydd mwy na 6 ymgeisydd o dan sylw, dylid gwneud rhagor o ddarpariaeth'.*

<u>Ymateb</u>
Bydd Llywodraeth Cymru yn amcanu at ddatblygu pecyn o ganllawiau a fydd yn cynghori ar sut fydd orau i reoli rhestri aros a gallai gynnwys templed ar gyfer cofnodi'r galw am randiroedd a gerddi cymunedol. Rhagwelir y bydd y canllawiau yn annog awdurdodau lleol i rannu eu rhestri ag awdurdodau cyfagos fel bod unigolion sy'n byw mewn un awdurdod yn gallu cymryd lleiniau gwag yn eu hardaloedd, gan groesi ffiniau siroedd os oes angen. Bydd y canllawiau yn cael eu drafftio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

**Cwestiwn 15:**

**Beth ddylai fod yn sbardun ar gyfer datblygu strategaeth tyfu bwyd yn y gymuned, ac a ydych chi'n cytuno mai'r awdurdod lleol ddylai arwain ar ei llunio?**

Ymateb cymysg a gafwyd i'r cwestiwn ynghylch beth ddylai fod yn sbardun ar gyfer datblygu strategaeth tyfu bwyd yn y gymuned. Yn ôl FCFCG, yr awdurdod lleol ddylai ei ddatblygu ym mhob achos, p'un a ydy'r gwasanaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol eisoes yn cael ei ystyried fel un da ai peidio. *'Dylai fod yn rhan o'r Cynllun Integredig Sengl er mwyn iddo gael ei ymwreiddio ar draws adrannau cyngor'*. Ym marn Cyngor Bro Morgannwg, y galw yn lleol ddylai fod yn sbardun. Ar y llaw arall, ym marn y tirfeddiannwr rhandiroedd a ymatebodd, dylid gosod nodau a thargedau clir i'w bodloni. Credai amryw o'r ymatebwyr y dylai strategaeth fod yn rhan o bob datblygiad tir newydd.

Mae FCFCG yn awgrymu bod angen mapiau lleol o ddarpariaeth a galw i ddangos yr ardaloedd lle nad oes unrhyw ddarpariaeth neu le nad oes digon o ddarpariaeth. Heb gronfa ddata, bydd y dasg o ddangos nad yw'r galw yn cael ei fodloni yn un beichus ac yn cymryd llawer o amser.

Roedd cytundeb cyffredinol â'r farn mai awdurdodau lleol ddylai arwain ar lunio strategaeth ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned. Dywedodd cynrychiolwyr FlintShare mai *'awdurdod lleol, yn gyffredinol, sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i bwysau yn lleol. Felly, y nhw ddylai arwain ar ddatblygu a gweithredu strategaeth sy'n rhoi ystyriaeth i amgylchiadau ac angen yn lleol'.* Dylid annog awdurdodau lleol i ehangu eu strategaethau i gynnwys pob math o fwyd sy'n cael ei dyfu yn y gymuned. Dylai strategaethau lleol ystyried beth fydd y galw tebygol yn y dyfodol.

Yn ôl amryw o'r ymatebwyr, dylai awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â chynghorwyr arbennig a thyfwyr yn y gymuned i ddatblygu strategaethau.

Ymateb
Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn hanfodol alinio'n well â mentrau eraill y Llywodraeth a mentrau allanol sydd eisoes yn cynnig profiad gwerthfawr ac yn cefnogi arferion da. Mae Llywodraeth Cymru am ddatblygu ar yr arbenigedd sydd eisoes yn bodoli i helpu cymunedau ym mhob cwr o Gymru i elwa ar y cynnydd mewn cyfleoedd i dyfu.

**Cwestiwn 16:**

**O dan ba amgylchiadau, a gyda pha fesurau diogelu, ddylai awdurdodau lleol a chymunedau allu cofrestru a defnyddio tir nad ydynt yn berchen arno nac yn ei brydlesu ar gyfer tyfu yn y gymuned?**

Yn gyffredinol, roedd yna gefnogaeth i'r syniad y dylai awdurdodau lleol a chymunedau allu cofrestru tir cyhoeddus nas ddefnyddir a thir cyhoeddus a danddefnyddir.

Nodwyd yr amgylchiadau a ganlyn:
- rhaid dangos nad yw'r tir yn cael ei ddefnyddio ac nad oes cynlluniau clir ar gyfer ei ddefnyddio
- rhaid bod ystyriaeth wedi cael ei roi eisoes i bob opsiwn arall
- dylai gynnwys tir cyhoeddus yn unig nas defnyddir, ac nid tir preifat
- ni ddylai gael gwared ar gynefinoedd naturiol gwerthfawr, cael effaith negyddol ar fywyd gwyllt na lleihau tir amwynder.

Nodwyd bod angen y mesurau diogelu a ganlyn:
- dylid cynnal ymgynghoriad agored
- rhaid cael cytundeb tenantiaeth sicr a fydd yn cynnwys terfynu, tresmasu, difrodi/camddefnyddio tir
- dylid pennu cyfnod prawf
- dylid pennu isafswm cyfnod rhentu er mwyn i ddeiliaid lleiniau allu cynllunio eu tyfu
- dylid cynnal asesiadau risg (o ran bioamrywiaeth a chroeshalogi, er enghraifft) ar safleoedd cyn i'r tir gael ei ddefnyddio
- rhaid bod eglurder ynghylch y cyfnod amser pan fyddai'r tir yn cael ei ddefnyddio a'r cyfnod pan fyddai'n rhaid ei ddefnyddio ar gyfer tyfu
- dylid pennu cyfnod rhybudd teg a rhesymol
- mae angen gweithdrefnau a chanllawiau clir i awdurdodau lleol a chymunedau eu dilyn cyn gallu cofrestru tir.

Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddai angen canllawiau ar y materion canlynol: pennu perchenogaeth tir, cytundebau defnyddio tir, strwythurau a ganiateir heb ganiatâd cynllunio a hawliau apelio.

Ymateb
Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sylwadau a godwyd. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno datblygu pecyn o ganllawiau, a fydd yn cynnwys cyngor ar

ba fath o dir sy'n eiddo cyhoeddus y byddai'n fuddiol ei ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd a phrosiectau tyfu yn y gymuned. Bydd y canllawiau yn cael eu drafftio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

**Cwestiwn 17:**

**I ba fath o ardaloedd y dylid ymestyn y cynnig hwn, a pha gamau diogelu y byddai eu hangen?**

Mae cynrychiolwyr o'r prosiect Tyfu Pobl Ifanc Gwyrdd ('Growing Green Teens') yn awgrymu y gellir datblygu unrhyw safle gwyrdd os caiff ddigon o adnoddau eu neilltuo iddo ac os caiff ei reoli'n ddigonol. Gellir cynnwys rhandiroedd a gerddi cymunedol ar barseli cymharol fach o dir.

Dywedodd mwy nag un o'r ymatebwyr y dylid gosod amodau ar ddatblygiadau newydd lle rhaid cynnwys tyfu bwyd yn y gymuned. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid cyfyngu ar y cynnig. Dylid diogelu tir datblygu a thir amwynder cymunedol yn ogystal â thir ag iddo arwyddocâd hanesyddol ac amgylcheddol pwysig. Rhaid i'r cynnig gael ei ystyried hefyd yn erbyn blaenoriaethau eraill yr awdurdodau lleol.

Nodwyd llwyddiant cynlluniau megis Incredible Edible, sy'n dangos bod modd tyfu bwyd fwy neu lai unrhyw le, gan Rwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu (PLANED). Awgrymwyd y gellid ymestyn y cynnig i ardaloedd lle mae'r galw a chanolbwyntio ar ardaloedd trefol lle mae argaeledd lleiniau yn brin a lle ceir prinder lleiniau addas.

Awgrymwyd y mannau a ganlyn:
- ymylon caeau chwarae
- ymylon ffyrdd
- coetiroedd
- ardaloedd wedi'u tirweddu yng nghanol trefi
- glannau afonydd, llwybrau halio camlesi
- cylchfannau.

Nodwyd bod angen y mesurau diogelu a ganlyn:
- cytundeb y landlord
- dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus
- mecanwaith ar gyfer adfer tir pe byddai'r fenter tyfu yn y gymuned yn dirwyn i ben
- ni ddylai darfu ar safonau eraill y mae'n ofynnol eu bodloni, er enghraifft y ddarpariaeth o fannau agored ar gyfer gweithgareddau hamdden ac ni ddylai rwystro mynediad at lwybrau tramwy
- dylid prydlesu’r tir o dan drwydded neu denantiaeth
- dylid cynnal gwiriadau ar ba mor addas yw'r tir, megis gwiriadau o ran croeshalogi, iechyd a diogelwch
- dylid digolledu os bydd angen y tir yn gynharach na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol
- dylai hyd y ddeiliadaeth fod yn rhesymol

- dylai’r tir fod yn rhydd o unrhyw halogion ac yn addas ar gyfer tyfu, a dylai bod mynediad diogel iddo ond dylai'r mynediad i'r cyhoedd fod yn gyfyngedig er mwyn osgoi unrhyw ddifrod i gnydau.

Ymateb
Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sylwadau a godwyd.

**Cwestiwn 18:**

**Sut y dylid mynd ati i asesu pa mor addas yw'r tir ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned, a pha faterion y dylid eu hystyried?**

Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y dylid ystyried y materion canlynol:
- ansawdd y tir - unrhyw faterion o ran halogion; pa mor addas yw'r pridd; faint o fynediad sydd yno at ddŵr; a yw'r tir yn cael ei ddraenio; a ydy'n derbyn lefelau rhesymol o haul; pa mor gynaliadwy yw'r tir; a oes yno rywogaethau goresgynnol
- y safle – dylai fod yn ddiogel ac yn hawdd i gael mynediad ato (o fewn pellter cerdded i gymunedau neu lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus); yn sicr; gyda chyfleusterau digonol; yn agos at aelwydydd; a rhaid ystyried y defnydd a wneir o dir cyfagos
- y galw cyhoeddus a ph'un a oes yna gefnogaeth ac awydd yn y gymuned leol i gymryd rhan mewn cynllun
- a oes yna adnoddau digonol
- a oes yna restr aros, neu safleoedd a danddefnyddir ar hyn o bryd
- Asesiadau o'r Effaith ar yr Amgylchedd ac Asesiadau Bioamrywiaeth - dylid eu cwblhau ar gyfer pob safle newydd arfaethedig
- a fydd cymdeithas yn cael ei sefydlu.

Mae'r sylwadau gan Asiantaeth Ynni Hafren Gwy yn awgrymu mai pobl broffesiynol ddylai gynnal yr asesiadau, (gan gynnwys tirfeddianwyr, FCFCG, CLAS ac awdurdodau lleol). Rhaid i'r broses fod yn gwbl glir a rhaid ei chynnal yn llygaid y cyhoedd ym mhob awdurdod lleol. Dylid cyflwyno adroddiadau, gan amlinellu'r effeithiau ac unrhyw fesurau lliniaru gofynnol. Dylid rhoi rhesymau dilys am unrhyw wrthodiad i ddefnyddio tir.

Roedd amryw o'r ymatebwyr yn ystyried y dylid cynhyrchu canllawiau ar gynnal a chadw sylfaenol, hylendid bwyd a'r math o dir y gellir ei ddefnyddio ar gyfer tyfu yn y gymuned. Argymhellir hefyd bod Llywodraeth Cymru yn llunio safon asesu gyffredin, lle mae tir yn cael ei eithrio o'r tir sy'n addas os nad yw'n bodloni set o amodau penodedig. Dywedodd un gymdeithas randiroedd y dylai Llywodraeth Cymru helpu awdurdodau lleol i asesu safleoedd diwydiannol o safbwynt halogion ac i ymdrin â rhywogaethau goresgynnol.


Ymateb
Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sylwadau a godwyd.

**Cwestiwn 19:**

**A ydych chi'n cytuno â'r cynigion uchod naill ai fel un pecyn cyfunol neu'n rhannol?**

Derbyniwyd 43 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (er na ddywedodd pob ymatebydd yn uniongyrchol a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion).

**A ydych chi’n cytuno â’r cynigion gyda’i gilydd neu’n rhannol?**




Cafwyd y sylwadau canlynol gan yr ymatebwyr sy'n cytuno â'r holl gynigion gyda'i gilydd:

- byddant yn sicrhau bod strategaeth a pholisi yn cael eu gweithredu mewn modd cydlynol
- bydd y cynigion ar eu pennau eu hunain yn aneffeithiol
- dylai pob ffordd o ddefnyddio tir a danddefnyddir gael ystyriaeth
- gallent alw am ddull fesul cam neu ddull graddol
- dylid sefydlu strategaeth glir.

Dywedodd yr ymatebwyr sy'n cytuno â'r cynigion yn rhannol:

- mae angen pennu'r manylion er mwyn sicrhau bod anghenion tirfeddianwyr a grwpiau cymunedol yn cael eu bodloni
- mae angen system a all addasu i amgylchiadau sy'n newid
- mae yna ddiffyg o ran argaeledd tir ac mae prinder tir addas sy’n agos at y boblogaeth mewn ardaloedd trefol
- ni ddylai rhandiroedd a thyfu yn y gymuned ddod o dan yr un fframwaith cyfreithiol
- mae gan ardaloedd gwahanol anghenion gwahanol
- gallai unigolion hawlio pob math o ardaloedd o dir
- gallai cynigion 6, 7 ac 8 greu proses fwy biwrocrataidd.

<u>Ymateb</u>
Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sylwadau a godwyd.

**Cwestiwn 20:**

**Beth yw effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl y cynigion (ar y cyd neu'n rhannol)?**

Cynigiwyd amryw o effeithiau cadarnhaol a negyddol gan yr ymatebwyr.

Cadarnhaol:

- mae rhandiroedd a thyfu yn y gymuned yn gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl, yn gwella lles ac yn cynnig ffordd o fyw iachach
- mae rhandiroedd a gerddi cymunedol yn gwella'r amgylchedd, yn gymorth i fywyd gwyllt, ac yn lleihau ein hôl troed carbon
- mae prisiau bwyd yn cynyddu ac mae'r cynigion yn helpu i fynd i'r afael â'r cynnydd parhaus yn lefelau tlodi bwyd
- mae'r cynigion yn cynnig dull o wneud ein system fwyd yn decach a sicrhau bod bwyd ffres da ar gael i bawb, ac mae'n cynyddu'r cyflenwad o fwyd a dyfir yn lleol
- bydd y cynigion yn darparu mwy o dir ar gyfer tyfu (cyhyd ag y bo digon o adnoddau i'w ddatblygu) ac mae mwy o leiniau yn golygu y gall mwy o bobl dyfu eu bwyd eu hunain
- byddai'r cynigion yn dod â mwy o unffurfiaeth a mwy o dryloywder
- mae'n codi proffil rhandiroedd a gerddi cymunedol a dylai hynny helpu i fynd i'r afael ag unrhyw anghysondeb
- gallai grwpiau cymunedol ennill sgiliau newydd ac mae yna gyfle hefyd i greu cyfleoedd ehangach
- mae'r manteision yn drech nag unrhyw fân faterion a allai godi.

Negyddol:

- gallai gormod o ddeddfwriaeth gael ei llunio mewn perthynas â rhandiroedd a thyfu yn y gymuned, mae angen bod yn ofalus o'r cyfyngiadau yn erbyn hyblygrwydd a rhyddid i dyfu
- os bydd gweithdrefnau yn rhy gymhleth neu fiwrocrataidd, efallai na fydd y canlyniadau yn cyfiawnhau'r gwaith ychwanegol a bydd yn atal pobl rhag cymryd rhan
- materion posibl o ran adnoddau - gallai cost tir mewn rhai ardaloedd a chostau sefydlu rhandir fod yn rhy uchel
- gallai safleoedd gael eu gadael i ddirywio os bydd yna ormod o ardaloedd bach
- mae'n bosibl na fydd yna ddigon o dir addas
- mae'n bosibl y gellid gelyniaethu rhai tirfeddianwyr a gallai rhai awdurdodau lleol wrthwynebu, mae yna berygl y bydd defnyddwyr presennol tir a defnyddwyr arfaethedig y tir yn gwrthdaro
- bydd angen ymchwilio'n drwyadl i safleoedd newydd posibl
- mae yna berygl y gallai'r ymrwymiad at safleoedd ac ymrwymiad tyfwyr eu hunain gael eu colli.

<u>Ymateb</u>
Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sylwadau a godwyd.

**Cwestiwn 21:**

**Ym mha ffyrdd eraill, yn hytrach na'r cynigion a geir uchod, y gellid gwella'r ddarpariaeth tir ar gyfer rhandiroedd a thyfu yn y gymuned?**

Cynigiodd yr ymatebwyr awgrymiadau amrywiol sut y gellid gwella'r ddarpariaeth tir ar gyfer rhandiroedd a thyfu yn y gymuned.

Adnoddau/Cymorth:

- mae angen adnoddau i sicrhau bod y safleoedd presennol yn cyrraedd y safon y cytunwyd arni, bydd hyn yn golygu bod llai o wastraff a bydd yn cymell arferion cynaliadwy
- dylid cynnig cyllid ar raddfa fach i'r rheini sy'n dechrau i sicrhau bod mwy o dir ar gael a bod mwy o gynlluniau yn cael eu gwireddu
- rhaid bod yna ffynonellau cyllid addas, cynaliadwy a digonol, ni ellir rhagdybio y bydd modd cyflawni'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau ychwanegol o dan yr amgylchiadau ariannol presennol nac yn y dyfodol
- dylid sicrhau bod pecyn cymorth cyllid a hyfforddiant yn cael ei gynnig
- dylid annog deiliaid lleiniau i fod yn aelodau o gymdeithas genedlaethol i hyrwyddo safonau uchel a chynnig mynediad at gymorth
- dylid pennu hyrwyddwyr/llysgenhadon i hyrwyddo/datblygu syniadau.

Safleoedd tyfu:

- dylid ystyried lleiniau maint llawn a hanner maint
- dylid hyrwyddo arferion organig cynaliadwy
- dylai fod gan ysgolion fynediad at dir cyfagos i'w galluogi i addysgu garddwriaeth syml
- gellid gwella amodau'r pridd drwy ddefnyddio gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd
- dylid sefydlu prosiectau penodol i helpu pobl ifanc, y rheini ag anableddau, ffoaduriaid a phobl hŷn i gael mynediad
- dylai cynlluniau tyfu yn y gymuned fod yn gymwys ar gyfer cynlluniau rheoli tir
- gellid datblygu ardaloedd tyfu ar ben toeon, ar falconïau ac mewn atria mewn ardaloedd trefol
- dylai tyfwyr allu gwerthu cynnyrch dros ben i bobl leol, yn arbennig y rheini sy'n methu â thyfu eu cynnyrch eu hunain
- dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol blannu coed ffrwythau a chnau wrth blannu mewn strydoedd am y tro cyntaf, neu wrth ddisodli planhigion a blannwyd yno eisoes.

Canllawiau:

- sut i annog cymunedau i dyfu
- sut i sicrhau bod pobl yn gallu manteisio ar y cyfle i dyfu yn y gymuned
- mesuriadau lleiniau
- rheoli dŵr ffo
- defnyddio cynnyrch gwarchod cnydau
- cydymffurfio â Rheoliadau - iechyd a lles anifeiliaid, rheoli clefydau

- diogelwch bwyd
- cadw da byw ar safleoedd a chyfrifoldebau perchenogion
- sut i addasu tir fferm - costau sefydlu, cynllunio, trefniadau deiliadaeth tir, trawsgydymffurfio, cymhwystra o dan gynllun y Taliad Sengl
- cynyddu ymwybyddiaeth o randiroedd a chodi eu proffil
- dylid enwi ffynonellau cyllid yn y canllawiau a gyhoeddir

Ymateb
Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sylwadau a godwyd.

## 4. Y camau nesaf

Yn sgil cyhoeddi'r Papur Gwyrdd, mae wedi dod i'r amlwg bod angen gwneud mwy na dim ond dod o hyd i ragor o dir ar gyfer tyfu. Mae angen inni reoli'n well y galw am safleoedd a'r cyflenwad o safleoedd sydd ar gael eisoes yng Nghymru. Mae'n bwysig darparu canllawiau diweddar yn ymwneud â rhandiroedd traddodiadol a phrosiectau garddio dan arweiniad y gymuned ac rydym yn gobeithio darparu'r rhain erbyn diwedd Tymor y Cynulliad hwn. Caiff canllawiau eu drafftio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghorir arnynt cyn eu cyhoeddi.

Mae'n bwysig datblygu'r arbenigedd sydd ar gael eisoes i helpu cymunedau ym mhob cwr o Gymru i elwa ar y cynnydd mewn cyfleoedd i dyfu. Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar sut y gellir cefnogi tyfu yn y gymuned ymhellach drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Bydd cynigion anneddfwriaethol yn chwarae rhan bwysig i gyflawni'r amcan o gynyddu argaeledd tir a chyfleoedd tyfu. Bydd angen ystyried ymhellach cyn y gellir datblygu newidiadau posibl i ddeddfwriaeth.

## Atodiad A

Hoffai Llywodraeth Cymru achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn.

Ceir rhestr isod o'r holl ymatebwyr a roddodd caniatâd i'w sylwadau gael eu cyhoeddi:

- Cheow-lay
- Gloria Hawkins
- Cyngor Tref y Fflint
- Richard Thomas
- Vicky Moller
- Cyrenians Cymru
- Medwyn Roberts
- Capita
- Cwmni Nod Glas Cyf.
- Owen Jenkins
- Gill Wislocka
- Ian Rees
- Bleddyn Williams
- Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Dirprwyon i Ranbarth Cymru NSALG
- Cyngor Cymuned Llandeilo Bertholau
- Cymdeithas Randiroedd Sully Terrace
- Gus Phillips
- Awdurdod Lleol Sir Ddinbych
- Cyngor Cymuned Llandochau
- Un Llais Cymru
- Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol (FCFCG)
- Uned Adfywio Gwledig
- Mick Antoniw AC
- Cymdeithas Randiroedd Sir Pen-y-bont ar Ogwr
- Food Cardiff
- Awdurdodau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri
- Sarah Sims Williams
- Prosiect Tyfu Pobl Ifanc Gwyrdd ('Growing Green Teens')
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Cyngor Cymuned Gelli-gaer
- Cyngor Cymuned Corneli

- Cymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Rhandir a Hamdden Cyfyngedig (NSALG)
- Cyngor Tref Penarth
- Cyngor Cymuned Gwersyllt
- FlintShare
- Cymdeithas Randiroedd Llandudoch
- RSPCA Cymru
- Egg Seed, Gardd Gymunedol Glan yr Afon
- Jocelyn Kynch
- Allan Evans
- Cyngor Tref Bae Colwyn
- Cyngor Cymuned Radur a Threforgan
- Cyngor Cymuned Llys-faen
- Gweithgor Cymru ar Groeshaolgi Tir (WLCWG)
- Cyngor Caerdydd
- Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu (PLANED)
- Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) yng Nghymru
- Ymddiriedolaeth Tir Cwm Harry
- Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) Cymru
- Cyngor Bro Morgannwg
- NFU Cymru
- Sefydliad Tirwedd Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Rhandiroedd Aberteifi
- Cymdeithas Randiroedd Cwm-carn ac Aber-carn
- Cyngor Cymuned Dinas Powys
- Grŵp Aberystwyth Gwyrddach
- Prosiect Rhandiroedd i Deuluoedd Llanhiledd
- Cymdeithas Randiroedd Watton
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)